

**Clwb Mynydda Cymru**  
**Cofnodion o'r cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**  
**Gwesty'r Llew Gwyn, Y Bala.**  
**19 Tachwedd 2005.**

1. Agorodd y Cyfarod gan y Cadeirydd, George Jones efo diolchiadau i'r holl aelodau a oedd wedi cynorthwyo sicrhau blwyddyn lwyddiannus iawn i'r Clwb, gan gynnwys Eisteddfod Eryri. Un agwedd bwysig o gyfraniad y Clwb oedd cyd-gysylltu am fynydda y tu allan i fframwaith gweithgarwch y Clwb.
2. Roedd 41 aelod yn bresennol gyda 3 ymddiheuriad.
3. Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod ar 27 Tachwedd fel rhai cywir.
4. Roedd gwaith yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth yn brysur. Yn ogystal a gweinyddu'r aelodaeth, bydd defnydd o'r sgriniau arddangos a thafenni o blaid ennill aelodau newydd. Roedd yn holl bwysig trwy amod y polisi insiwrans fod pob arweinydd taith yn hysbysu'r Ysgrifennydd Aelodaeth o enw a chyfeiriad UNRHYW unigolyn newydd heb aelodaeth ar unrhyw daith. Roedd peth amser wedi ei gwario ar gynllun "Mentro Allan" ac efo Partneriaeth Gweithgareddau Awyr Agored Gogledd-Orllewin Cymru ac ar ymgynghoriadau fel Goriad Gwyrdd eryri a Mynediad at yr Arfordir
5. Adroddwyd gan yr Ysgrifennydd Gweithgareddau y bu 32 taith dros y Sul yn y Gogledd, 14 ddydd Mercher, 12 yn y De ac 1 yn y Canolbarth, 1 i'r Alban ac i'r Hen Ogledd. Bu un noson gymdeithasol a 2 sesiwn hyfforddi.
6. Roedd Gwefan y Clwb wedi ail-sefydlu o dan olygiaeth Ysgrifennydd y Wefan ac yn barod i'w defnyddio gan yr aelodau.
7. Cyflwynwyd y Fantolen gan y Trysordd, gyda chynydd yn ein asedau. Bydd rhaid rhoi cyhoeddusrwydd i Gronfa Hefin.
8. Ail etholwyd y 3 Ysgrifennydd : Iolo ap Gwynn, Maldwyn Roberts a Clive James, a'r Trysorydd J A Jones.
9. Trwy ganiatad yr aelodaeth derbyniwyd y 7 ymgeisydd ar gyfer aelodaeth y Pwyllgor : Llew Gwent, Gwyn Roberts, Alan Hughes, Iolyn Jones, Morfydd Thomas, Alwen Williams a John Williams.
10. Penodwyd Gareth Pierce Evans fel Archwilydd a chytunwyd cynnig taliad iddo.
11. Prif materion Cyngor Mynydda Prydain yn ystod y flwyddyn oedd ei cyfranogiad yn Eisteddfod Eryri, y cyfle diwygio Pwyllgor Cymru, dechrau Cymreigio, a'r cynnig cynnwys tudalen dwyieithog yn "Summit", Roedd yr aelodaeth yn cefnogol i'r olaf !
12. Nodwyd ar ddiwedd y cyfarfod bydd teithiau i Nepal ym mis Ebrill 2006 a De Amerig adeg Pasg 2007. Gwyliwch y Wefan !